

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd ar nos
Fercher, Rhagfyr 6^{ed} 2017 yn Ystafell Ddarllen yr Hendy.**

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

A Blackley
A Evans
B Evans
B Thomas
G Thomas
B D Davies
S A Evans
L Griffiths
T Higgins
C Higgins
M Nicholas
I Davies
S Lyle
C Davies
Emyr Davies

Y Cadeirydd, y Cynghorydd M Nicholas, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Hefyd yn bresennol - y Clerc, David Davies, a'r Swyddog Datblygu Cymunedol, Sarah McColl-Dorion

Cofnod rhif 2 – y Cynghorydd Emyr Davies

Roedd y Cynghorydd Emyr Davies wedi arwyddo ei ddatganiad derbyn swydd Cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanedi. Cafodd ei longyfarch ar ei apwyntiad gan Aelodau'r Cyngor.

Cofnod rhif 3 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorydd M Davies.

Cofnod rhif 4 – Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant ynghylch y materion ar yr agenda.

Cofnod rhif 5 – Mr a Mrs Howard ac Helena Jones

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan Mr a Mrs Jones ynghylch eu gwaith o ymchwilio hanes yr Hendy a Thycroes. Maen nhw'n gobeithio cyhoeddi eu gwaith ar ffurf llyfr yn y dyfodol, a gwnaethpwyd cais i'r Cyngor i ystyried

cynnig cymorth ariannol tuag at y gost o gyhoeddi'r gwaith. Nodwyd y byddai 500 llyfr yn costu £6,700.00.

Cofnod rhif 6 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ynghylch y materion canlynol:

- Roedd wedi mynychu Gwasanaethau Sul y Cofio yn Llanelli ac yn Llanedi. Derbyniwyd y swm o £271.00 o'r Casgliad a wnaethpwyd yn ystod y gwasanaeth coffa yn Eglwys Llanedi, a diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth ar y diwrnod hwnnw.
- Roed achlysur agor Parc yr Hendy ym mis Tachwedd yn llwyddiant, gyda chefnogaeth a chyfraniad plant Ysgol yr Hendy.
- Roedd y seremoni cynnau'r goleuadau yn Nhycroes wedi bod yn llwyddiant, ond mynegwyd consyrn ynghylch y trefniant gwael o'r digwyddiad ar Sgwâr yr Hendy.
Roedd yr Aelodau yn cytuno â'r pryderon a godwyd gan y Cadeirydd, ac yn teimlo bod angen i'r Cyngor adolygu'r trefniadau ar gyfer unrhyw ddigwyddiad y Nadolig a drefnir yn y dyfodol.
- **Penderfynwyd** y bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw drefniadau am ddigwyddiadau a drefnir yn yr Hendy. Yn ychwanegol, cytunwyd bod y Cadeirydd yn ymateb i'r cyhoeddusrwydd negyddol diweddar a dderbyniwyd gan y Cyngor parthed â Phwyllgor yr Ŵyl, ac i amlinellu'r ffeithiau cywir ynghylch y chyfraniad a wnaethpwyd gan y Cyngor.
- Yn ychwanegol, **pendefynwyd** gwahodd cynrychiolwyr Pwyllgor yr Ŵyl i gyfarfod â chynghorwyr dethol er mwyn trafod y safbwyntiau unochrog a gofnodwyd yn y wasg.

Cofnod rhif 7 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Tachwedd 1^{af} 2017

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 8 – Café Cymunedol – Ystafell Ddarllen

Nodwyd nad oedd angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio i newid defnydd yr Ystafell Ddarllen i gafé cymunedol. Riportiodd y Cynghorydd A Evans bod yr oergell wedi'i brynu, ac wedi'i osod yn yr Ystafell Ddarllen.

Cofnod rhif 9 – Adolygiad Staff

Gofynnodd y Clerc os oedd unrhyw newyddion parthed â'r adolygiad staff, a oedd wedi'i oedi o 3 mis. Roedd y Cadeirydd wedi addo y bydd y gwaith yma'n cael ei wneud yn ystod yr wythnos nesaf.

Cofnod rhif 10 – Trefniadau Bancio

Dyweddodd y Clerc ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda'r banc ynghlyn â'r materion canlynol, ac roedd wedi cadarnhau'r weithdrefn sydd ei angen i adolygu'r cyfrif yn ôl y gofyn:

- Taliadau Electronig – Bancio ar y rhynggrwyd.
- Nifer uwch o lofnodwyr awdurdodedig.
- Trefnu bod cerdyn banc ar gael ar gyfer gwneud taliadau ar-lein i brynu nwyddau o werth hyd at £5,000 a, gyda chaniatâd y Cadeirydd, nwyddau o werth uwch na hynny.

Penderfynwyd cymeradwyo'r diwygiad hwn i gyfrif banc y Cyngor er mwyn adlewyrchu'r materion uchod, ac i roi caniatad i'r llofnodwyr awdurdodedig i lofnodi'r dogfennau gofynnol yn ôl y gofyn. Yn atodol, **penderfynwyd** diwygio rheoliadau ariannol y Cyngor i adlewyrchu'r cynigion uchod.

Cofnod rhif 11 – Cais am Gymorth Ariannol i Tesco

Dyweddodd y Cadeirydd bod Pennaeth Ysgol Tycroes am estyn ei ddiolch i'r Swyddog Datblygu Cymunedol am ei gwaith o baratoi'r cais llwyddiannus am gymorth ariannol o Tesco at bwrpas darparu cysgodfan feiciau yn yr ysgol.

Cofnod rhif 12 – Adroddiad y Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC)

Cafwyd adroddiad gan y SDC ar y materion canlynol:

Ardal yr Hendy

Cyfarfod gydag Andrew Misell

Ar Dachwedd 8^{fed} gwahoddwyd Aelodau'r Cyngor Cymuned i'r Ystafell Ddarllen i gyfarfod â'r siaradwr gwadd, Andrew Missell, cyfarwyddwr Alcohol Concern Cymru. Cafwyd crynodeb gan Andrew o'r prosiect llwyddiannus "Cymunedau Ynghyd" ("*Communities Together*") a gynhaliwyd yn Sir Benfro dros gyfnod o 3 blynedd.

Datblygu'r Wefan

Ar Dachwedd 9^{fed} trefnais gyfarfod gyda'r Clerc a Jethro Harrington (dylunydd gwefan) yn yr Ystafell Ddarllen i drafod cynllun a gofynion gwefan newydd y Cyngor Cymuned. Bydd y safle newydd yn fwy rhyngweithiol ac yn denu sylw drwy gynnwys newyddion cyfredol a dynnir yn uniongyrchol o'r cyfryngau

cymdeithasol, felly bydd unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu diweddarau yn barhaol.

Y syniad yw i wneud y wefan yn fwy o dudalen gymunedol a reolir gan y Cyngor Cymuned, ac felly i integreiddio newyddion y Cyngor gyda grwpiau cymunedol eraill.

Dw i hefyd yn bwriadu defnyddio'r wefan hon i gynhyrchu cylchlythyr ar gyfer Llanedi, Tycroes, Fforest/ yr Hendy i fod ar gael ar y wefan ac ar ffurf copi caled.

Penderfynwyd awdurdodi prynu enwau parth ychwnaegol i warchod hunaniaeth ein safle.

Cyfarfod gyda Catherine ac Alison yng Nghanolfan Y Bont

Ar Dachwedd 14^{eg} cynhaliais gyfarfod gyda Catherine ac Alison sy'n gweithio yng Nghanolfan Y Bont. Yn garedig iawn, roedd y ddwy wedi darparu deunyddiau ar fy rhan, fel fy mod yn gallu gwneud Llusernau'r Nadolig y gallai plant yr Hendy eu cario ar y noson cynnau Goleuadau'r Nadolig.

Ffair Nadolig Ysgol Yr Hendy, ac Addurno Llusernau

Gyda chymorth y Cynghorydd Alan Blackley a Hanna y tasgmon, buon ni wrthi'n adeiladu llusernau o helyg wedi'u gorchuddio a *papier maché* i'r plant eu haddurno ar gyfer y noson cynnau Goleuadau'r Nadolig.

Clwb Criced yr Hendy

Cyfarfyddais gyda'r Syrfewyr Ystlumod ynghylch datblygiad arfaethedig y clwb, a phenderfynwyd nad oes unrhyw ystlumod yn clwydo yn y Clwb ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd dw i'n gweithio ar ddau gais am gymorth ariannol. Mae angen cyflwyno un erbyn y dyddiad cau, sef Rhagfyr 6^{ed}, felly dw i'n canolbwyntio ar gwblhau'r gwaith hwnnw. Byddaf yn cyflwyno cais am £50,000 i Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Cory, a byddai'r arian hyn yn cael ei wario ar ddraenio'r cae criced. Mae Ysgrifennydd Ymddiriedolwyr y Gronfa hon wedi fy hysbysu eu bod yn derbyn nifer fawr o geisiadau, fell dw i am gyflwyno cais manwl iawl. Mae'r ail gais am gymorth ariannol, am £400,000 - £500,000, ar gyfer datblygu'r Ganolfan Gymunedol. Bydd y cais hwnnw yn cael ei wneud i adran grantiau mawr Cronfa'r Loteri Fawr: Pawb a'i Le.

Ardal Tycroes

PACT, a chyfarfod Cymorth Lleol

Ar Dachwedd 2^{il} mynychais, yng nghwmni'r Cynghorydd Tina Higgins, y cyfarfod PACT lleol, a fynychwyd gan ychydig o breswylwyr lleol, a ches i'r cyfle o gyflwyno fy hun i'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol.

Dilynwyd hwn gan gyfarfod Cymorth Lleol yng Nghlwb Rygbi Tycroes. Roedd y grŵp yn trafod y Noson Tân Gwyllt a'r dathliadau sydd ar y gweill. Ces i ar wybod bod angen piano newydd yn Neuadd y Pentre, ac roeddwn yn ddigon ffodus i allu dod o hyd i un, a'i osod yn y neuadd.

Cyfarfod gyda Merched Clwb Rygbi Tycroes

Ar Dachwedd 22^{ain} mynychais gyfarfod o'r grŵp hwn. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddod o hyd i gyllid a chymorth i foderneiddio'r gofod café gyferbyn â'r Clwb Rygbi.

Ardal Llanedi

Ar ddydd Llun, Tachwedd 6^{ed}, mynychais gyfarfod gyda pherchennog y dafarn a phreswylwyr ym mwyty Tafarn Y Deri. Mae'r grŵp yn rhagweithiol iawn, ac mae ganddynt llawer o syniadau am brosiectau, gwelliannau a digwyddiadau ar gyfer Llanedi. Buon ni'n trafod rhai o'u pryderon a chytunais ddod â'r materion canlynol gerbron y Cyngor Cymuned.

Trafodwyd y canlynol:

- Basgedi crog ar hyd yr heol fawr ger grŵn y pentre hyd at yr ysgol. Dim ond 10 – 12 basged fyddai eu hangen ond, o ystyried patrwm y pentre, gallai'r rhain fod yn ddeniadol iawn. Roedd gwirfoddolwyr wedi datgan eu bod yn barod i gynnal a chadw'r basgedi ac i'w dwrhau yn ôl yr angen.
- Cyfnewidfa lyfrau unwaith yr wythnos yn Neuadd yr Eglwys. Mae'r preswylwyr yn hapus i drefnu hyn.
- Draenio grŵn y pentre. Mynegwyd consyrn ynghylch cyflwr presennol y grin. Roedd y preswylwyr o'r farn bod y grŵn yn ganolbwynt i'r gymuned, a byddent yn hoffi ei ddefnyddio'n amlach fyth i gynnal digwyddiadau lleol.
- Tocio'r llwyni a'r perthi ar gornel Heol yr Eglwys. Mae llain fach o dir ar y cornel hwn sydd mewn perchenogaeth breifat, a ddim yn cael ei gynnal a chadw'n dda. Mae'r gordyfiant yn golygu ei bod hi'n anodd iawn i geir weld beth sy'n digwydd wrth iddynt droi ar i'r heol yma, neu wrth droi allan i'r heol fawr sy'n rhedeg drwy Lanedi.

Parciau ac Ardaloedd Chwarae

Cafodd y gwaith canlynol ei wneud gan Hannah, tasgmon y Cyngor, yn ystod mis Tachwedd:

- Llwybrau troed newydd wedi'u concritio yn Nheras y Felin.

- Tynnwyd estyll dringo pwdr o Deras y Felin.
- Paentio offer chwarae.
- Gosod arwyddion yn yr holl barciau.
- Atgyweirio arwyddion a fandaleiddiwyd.

Cofnod rhif 13 – Parc yr Hendy

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch y taliadau interim oddiwrth Cartrefi Persimmon ar gyfer Parc yr Hendy.

Penderfynwyd bod y Cyngorydd G Thomas yn gwirio'r sefyllfa parthed â thaliadau Adran 106 oddiwrth Cartrefi Persimmon.

Cofnod rhif 14 – Gosod arwyddion newydd yn y parciau

Roedd y Cyngor wedi ystyried y materion diweddar parthed â chynnwys yr arwyddion diogelwch a osodwyd yn y parciau yn ddiweddar. Nodwyd bod yr arwyddion yn Llanedi a Bronallt wedi'u diwygio er mwyn tynnu i ffwrdd unrhyw gyfeiriad at gemau pêl, gan fod manau penodol yn y parciau hyn sy'n gwbl addas at chwarae gemau pêl.

Cofnod rhif 15 – Cynnal a chadw y caeau chwarae

Riportiodd y Cyngorydd A Blackley bod Clwb Pêl-Droed yr Hendy yn dal eu cae ar brydles o Gyngor Sir Caerfyrddin. Dywedodd y byddai'r clwb, gyda chydysniad y Cyngor Sir, yn fodlon ystyried trosglwyddo'r brydles i'r Cyngor Cymuned. **Penderfynwyd** gohirio ystyriaeth o'r mater hwn.

Cofnod rhif 16 – Adroddiadau Cyllid

Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Cyllid a oedd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cysoniad Banc
- Adroddiad ar yr Incwm a Dderbyniwyd
- Adroddiad ar y Gwariant arfaethedig
- Adroddiad ar dderbyniadau a thaliadau yn ôl pennawd cyllideb

Penderfynwyd nodi'r adroddiadau hyn fel y'u cyflwynwyd.

Cofnod rhif 17 – Cyllideb y Cyngor

Er mwyn penderfynu ar gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, **penderfynwyd** cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor ddiwedd mis Ionawr 2018. Yn atodol, **penderfynwyd** y byddai agenda cyfarfod nesaf y Cyngor yn cynnwys eitem i drafod unrhyw gynigion, prosiectau neu sylwadau y byddai'r Cyngorwyr yn awyddus i'w cynnig i'w cynnwys yn y gyllideb.

Cofnod rhif 18 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

(a) Datblygiadau Arfaethedig

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

S/35215 Datblygiad preswyl o 51 tŷ annedd gyda gwaith cysylltiedig ar dir ger Clos Y Benallt Fawr, Fforest, Abertawe, SA4 OTQ. Cartrefi Persimmon Gorllewin Cymru - Luke Davies.

S/36492 Balconi arfaethedig a grisiau i gefn yr estyniad i'r pwll nofio a gymeradwywyd, ynghyd â newid defnydd lefel is yr ardd at ddefnydd domestig yn y tŷ annedd presennol yn 4 Coed y Bronallt, Abertawe, SA4 0ZQ. Mr Gary Croxall.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

Cofnod rhif 20– Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir

Cafwyd adroddiad ynghylch y materion canlynol gan y Cynghorydd T Higgins:

- Mae hi'n mynd i'r afael â mater sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Wardeiniaid Cŵn yn y gymuned.
- Mae'r heddlu yn monitro'r goryrru yn Coopers.
- Yn ddiweddar buodd hi'n beirniadu cystadleuaeth creu baner i Hebryngwr Croesfan yr ysgol.

Cafwyd adroddiad ynghylch y materion canlynol gan y Cyngorydd G Thomas:

- Mae'r cais caniatâd cynllunio am safle i deithwyr yn Nhal y Clun wedi'i gymeradwyo.
- Riportwyd bod yr arolwg diweddar o Ysgol yr Hendy wedi cael derbyniad ffafriol.
- Mae Ysgol yr Hendy wedi bod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth i ysgrifennu Carol Nadolig.

Cofnod rhif 19 – Terfysg Beca

Awgrymwyd bod y Cyngor yn ystyried a fyddai'n addas dathlu penblwydd Terfysg Beca ym mis Medi 2018.

Cofnod rhif 20 – Clwb Rygbi yr Hendy

Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Clwb Rygbi yr Hendy parthed â'u cynlluniau manwl i brynu a lleoli cynhwysydd ym Mharc yr Hendy. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r cynnig.

Cofnod rhif 21 - Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth ganlynol i'r cofnodion: -

Awdur	Pwnc
GIG Hywel Dda	Dogfen Ymgynghorol – Prif rhwydwaith drawma ar gyfer De a Gorllewin Cymru a De Powys.
Llywodraeth Cymru	Adran 137 – Terfyn gwariant ar gyfer 2018/19
Mrs L Davies	Llythyr o ddiolch am y rhodd i grŵp yr Henoed, Tycroes.
Un Llais Cymru	Adolygiad o'r sector Cyngorau Cymuned a Thref
Cyngor Sir Caerfyrddin	Llythyr o ddiolch am y rhodd i'r Apêl Teganau Nadolig.

Daeth busnes y Cyngor i ben am 9.15yh

**Llofnod Dyddiad
Cadeirydd**